Cymdeithas Gwenynwyr Cymru

CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU

Elusen Gofrestredig Rhif 509929

POLISI PREIFATRWYDD GWYBODAETH AELODAU CGC

Arweiniad i ymddiriedolwyr, swyddogion a gwirfoddolwyr eraill ar ran CGC

Adolygir y polisi hwn yn barhaus, o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd CGC yn diwygio'r polisi hwn, ar ôl ymgynghori, lle y bo'n briodol.

Dyddiad yr adolygiad diwethaf: mis Tachwedd 2023

Polisi Preifatrwydd Gwybodaeth Aelodau CGC

1. Datganiad Cyffredinol am gyfrifoldeb CGC

Mae angen i CGC brosesu data personol perthnasol er mwyn gallu cyflwyno gwasanaethau i'w haelodau, a bydd yn cymryd pob cam rhesymol i wneud hynny yn unol â'r Polisi hwn.

2. Rheolwr Data Aelodaeth

Ysgrifennydd Aelodaeth CGC yw'r Rheolwr Data Aelodaeth, a fydd yn ymdrechu i sicrhau bod yr holl ddata personol yn cael eu prosesu yn unol â'r Polisi hwn ac ag Egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr UE (GDPR).

3. Yr Egwyddorion

Bydd CGC cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol yn cydymffurfio â'r Egwyddorion Diogelu Data (yr Egwyddorion) sydd yn y Ddeddf Diogelu Data a GDPR er mwyn sicrhau bod holl wybodaeth yr aelodau:

• yn cael ei phrosesu'n deg ac yn gyfreithiol

• yn cael ei phrosesu at ddibenion cyfreithlon

• yn ddigonol, yn berthnasol a heb fod yn ormodol

• yn gywir ac yn gyfredol

• heb fod yn cael ei chadw'n hwy nag sydd ei angen

• yn cael ei phrosesu'n unol â hawliau'r testun data

• yn ddiogel

• heb fod yn cael ei throsglwyddo i bartïon eraill heb ddiogelwch digonol.

4. Gwybodaeth aelodau

Mae CGC yn derbyn ac yn prosesu ychydig neu'r cyfan o'r wybodaeth bersonol ganlynol am bob un o'i haelodau Aelod-Gymdeithasau, Unigol ac Anrhydeddus:

Enw, cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn

Darperir y wybodaeth hon ar ffurf electronig gan Ysgrifenyddion Aelodaeth Cymdeithasau Gwenyna Cymru ac ar ffurf electronig neu bapur gan Aelodau Unigol.

5. Darparu gwybodaeth i bartïon eraill

Er mwyn i wasanaethau gael eu darparu i'w haelodau, mae CGC yn anfon gwybodaeth aelodau:

- ar gyfer Aelodau Unigol i Bee Disease Insurance Ltd am wasanaethau yswiriant
- ar gyfer pob Aelod, at argraffydd cylchgrawn Gwenynwyr Cymru ar gyfer ei restr ddosbarthu drwy'r post

Caiff manylion cysylltu'r aelodau hynny sy'n gynrychiolwyr a swyddogion Aelod-Gymdeithasau eu rhannu o fewn CGC at ddibenion rheoli.

Gall gwybodaeth aelodau sydd gan CGC gael ei hanfon at Ysgrifennydd Aelodaeth eu Haelod-Gymdeithas at ddibenion dilysu.

Ni ddarperir unrhyw wybodaeth i unrhyw barti arall heb gydsyniad blaenorol yr Aelod.

6 Diogelwch, Storio a Chadw Data

Bydd CGC yn cymryd camau technegol a sefydliadol priodol er mwyn sicrhau bod data personol yn ddiogel. Bydd CGC yn sicrhau bod mesurau diogelu priodol yn cael eu cymryd yn erbyn prosesu data personol yn anghyfreithlon neu heb ei awdurdodi, ac yn erbyn colli'r holl ddata personol yn ddamweiniol, neu ddifrod iddyn nhw.

Defnyddir lefel briodol o ddiogelwch data ar gyfer y math o ddata a'r camau prosesu data sy'n digwydd. Bodlonir y gofyniadau penodol canlynol:

6.1 Bydd system rheoli aelodaeth eReturn2 a phob ffeil a dderbyniwyd oddi wrth CGC ac a anfonwyd gan y Gymdeithas wedi'u diogelu gan gyfrinair.

6.2 System yn y 'cwmwl' yw system rheoli aelodaeth eReturn 2. Dim ond pobl sydd wedi'u hawdurdodi gan eu cymdeithas sydd â mynediad iddi. Mae'r system wedi'i diogelu â chyfrinair ac mae'r mynediad yn seiliedig ar nifer penodol o bobl ag awdurdod, felly dim ond hyn a hyn o bobl sy'n gallu ei gweld.

6.3 Mae copi wrth gefn o'r system yn cael ei wneud yn ddyddiol mewn gwasanaeth storio diogel yn y cwmwl. At ddibenion cofnodion aelodau CGC yn unig y defnyddir y cyfryngau copi wrth gefn neu'r cyfrif storio yn y cwmwl ac ni fydd yn cynnwys unrhyw ffeiliau personol. Os defnyddir gwasanaeth storio diogel yn y cwmwl, bydd copïau wrth gefn yn cael eu cadw hefyd fel mater o drefn.

6.4 Bydd cofnodion yn cael eu cadw am 40 mlynedd fel bod modd i CGC, os oes angen, gadarnhau pwy sydd wedi'u cynnwys yn ei Pholisïau Yswiriant Cynnyrch ac Atebolrwydd Cyhoeddus, Mae'r cofnodion yn cael eu rhoi mewn archif ar ôl dwy flynedd.

6.5 Bydd gwybodaeth aelodau'n cael ei hamgryptio, ei diogelu â chyfrinair neu ei rhannu gan ddefnyddio system storio ddiogel yn y cwmwl pan gaiff ei hanfon at bartïon eraill, gan gynnwys Cymdeithas yr aelod ei hun. Mae mynediad ar-lein diogel at y system eReturn2 a throsglwyddo rhestri postio Gwenynwyr Cymru drwy FTP yn bodloni'r gofyniad hwn.

7. Cywirdeb

Bydd CGC yn ymdrechu i sicrhau bod yr holl ddata personol sydd ganddi mewn perthynas â'i haelodau yn gywir.

8. Hawliau Mynediad at Wybodaeth

Mae gan aelodau hawliau mynediad at y wybodaeth bersonol amdanyn nhw sydd gan CGC, yn amodol ar ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Dylai unrhyw aelod sy'n dymuno cael mynediad at ei ddata personol gyflwyno ei gais i'r Rheolwr Data Aelodaeth, cyfeiriad e-bost membership@wbka.com.
Bydd CGC yn ymateb i unrhyw geisiadau o'r fath cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ac ar bob cyfrif cyn pen 30 diwrnod.

9. Dogfennau perthnasol

Mae'r dogfennau canlynol yn berthnasol i weithredu'r Polisi hwn:

- Disgrifiad Swydd Ysgrifennydd Aelodaeth CGC
- Ffurflen Gais Electronig Aelodaeth Unigol CGC
- Ffurflenni Cais Aelodaeth Unigol ac Aelod-Gymdeithasau wedi'u llenwi
- Y contract rhwng CGC ac argraffydd Cylchgrawn Gwenynwyr Cymru (Stephens & George Print Group ar hyn o bryd)

Diwedd y ddogfen